# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 10/12/15, Menter LLyn (Siop Siarad)

Presennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arfon Hughes | Bleddyn Evans | Gruffydd Williams | John Thomas |
| Guto Williams | Sian Hughes | Glesni Jones (Clerc) | |

1. *Ymddiheuriadau*

   | | | | |
   |---|---|---|---|
   | Ashley Hughes | Dafydd Rhun | Megan Williams | Catrin Williams |
   | Alan Jones | Huw Williams | | |

2. *Datgan buddiant ariannol neu personol*

   Guto Williams datganiad personol

3. *Cofnodion 10fed o Tachwedd 2015*

   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. *Gwarchod y Gymdogaeth*

   Fe ddoth Kelly Mitchell o Heddlu Gogledd Cymru draw i roi cyflwyniad am Warchod y Gymdogaeth sydd yn un o'r cynlluniau atal trosedd mwyaf llwyddiannus erioed. Mae eu gwefan newydd yn cael ei ail lansio mis Rhagfyr lle maent yn defnyddio'r cyfle hwn i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gynlluniau Gwarchod y Gymdogaeth a'r manteision y gallant eu cynnig i gymunedau. Hefyd, ar hyn o bryd maent yn ceisio recriwtio aelodau newydd mewn ardaloedd sydd ag ychydig iawn o aelodau ar hyn o bryd. Bydd ymgyrch hyrwyddo Gwarchod y Gymdogaeth genedlaethol yn digwydd ym mis Ionawr 2016. Bydd posteri yn mynd fyny o amgylch y Pentrefi er mwyn annog rhagor o aelodau. Awgrymu efalla i ddod yn nol mewn 4 -6 mis i weld os wedi bod yn llwyddiannus gyda recriwtio rhagor o bobl.

5. *Cronfa Cymunedau Arfordirol*

   Dim wedi symud ymlaen ers be drafodwyd yn y cyfarfod a gafwyd gydag Wyn Williams ynglŷn â Wenolfa, Tŷ Pennig a Bwthyn Gwyn. Mae Cyngor Gwynedd angen gyrru un o'i swyddogion i ddatrys y broblem cyn gynted â phosib er mwyn cael bwrw ymlaen ar brosiect.

6. *Cae aml-ddefnydd*

   Dogfennau priodol wedi mynd at Gareth Jones Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn er mwyn symud ymlaen gyda'r Cae aml-ddefnydd.

7. *Menter Llyn (Siop Siarad)*

   Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda Siân Naden darlithir Coleg Meirion Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) ynglŷn â'r gwirfoddolwyr fydd yn y Siop gyda phobl ifanc yr ardal. Mae Mantell Gwynedd wedi datgan byddent yn talu am y DBS (CRB cynt) sef gwiriadau 'Disclosure and Barring Service' sydd ei angen wrth weithio gyda phlant.

8. *Gwellianau i siop Glynllifon / Hen Spar Nefyn*

   Mae Cyng. Gruffydd Williams wedi cael cyfarfod gydag aelod o staff Blakemore, maent wedi cytuno i roi gwariant i wella'r siop.

9. Llwybr i Borthdinllaen (Hen Blas)

   Mae Cyng. Sian Hughes am gysylltu gyda'r perchenog er mwyn gwneud y gwellianu sydd agen ei wneud ar y llwybr (crac wedi ymddangos).

10. Llwybr Edern

    Giât mochyn wrth ymyl Tŷ Hendre ddim yn agor yn iawn oherwydd rhwystr, mae angen clirio'r cae. Cyng. Siân Hughes am gysylltu ag Adam Daniel o Gyngor Gwynedd.

11. Sedd Wag Morfa Nefyn

    Bydd hysbysiad yn mynd fyny yn y flwyddyn newydd.

12. *Sedd Wag Edern*

    *Wedi pasio i ethol Alan Griffith*

13. *Cae Chware Edern*

    Fe ddoth Michael Strain i gyfarfod gyda Phwyllgor Cae Chware Edern. Mae angen cysylltu gyda Mr Robertson sydd gyda hawliau pori ar y lleoliad. Mae o wedi nodi ei fod yn hapus i bethau symud ymlaen gyda'r cae chware ond fydd rhaid codi gweithred rhyddhau yn gyntaf. Mae Michael Strain am gysylltu gyda'r Brif Ysgol.

14. *Menter Newydd - Gwerthu Te a Choffi ar lan mor Morfa Nefyn*

    Angen cysylltu gyda Barry Davies yn datgan gwrthwynebiad y Cyngor

15. *Awdit – Charity Commission*

    E-bost wedi ei dderbyn gan y Charity Commision yn datgan dychweliad hwyr o ffurflen flynyddol. Bydd rhaid ei ddatrys cyn gynted â phosib er mwyn dod ar wybodaeth yn gyfredol.

**Ceisiadau Cynllunio**

*C15/1190/42/RC – Diddymu cytundeb 106 (person lleol) 1 Llys Llewelyn, Nefyn. Dim gwrthwynebiad*

*C15/1176/42/LL – Estyniad unllawr cefn, Monarfon, Lon Penrhos, Morfa Nefyn – Dim gwrthwynebiad*

*C15/1226/42/LL – Adeiladu sied amaethyddol ffram ddur, Penrhyn, Cefn Morfa, Morfa Nefyn – Angen cadarnhad mai defnydd amaethyddol yn unig yw pwrpas y sied.*

**Gohebiaeth**

**17.0** Guidance for allotments and community led gardening projects
**18.0** Rhwydwaith Busnes Gwynedd
**19.0** Newyddion Archwilio Cymru
**20.0** Penodi Cadeirydd i Career Choices Dewis Gyrfa (CCDG) – Dyddiad cau 1af Ionawr 2016
**21.0** Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft
**22.0** Arolwg ymgynghori – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
**23.0** Gwarchod y Gymdogaeth

**Ceisiadau am Gyfraniad**

O Ddrws i Ddrws – Symud iw drafod yn cyfarfod mis Ionawr 2016.

Taliadau – Caniatad wedi ei roi i'r Clerc dalu'r isod.

- Cyflog Simon Jones £1667.17 a PAYE £665.96
- Cyflog y clerc a PAYE £520.00, £130.00
- *Rhent Siop Siarad/Menter Llyn £1170.00*
- *Rhent adeilad ar gyfer storio nwyddau £260.00*
- *John Gwynfor- Mynwentydd £350.00*
- *Un Llais Cymru - £35.00*
- *Ashley Hughes – Nwyddau Swyddfa £207.20*
- *Cyngor Gwynedd – Rhent Rhandiroedd £100.00*
- *G Williams - £1530.00 – Gwaith ffensio, Gosod arwyddion*

*Taliadau wedi eu cymeradwyo ac wedi eu talu*

*£65.00 – The Crown Marine Estate*
*£450.00 – Hacker Young Awdit*
*£9.00 – Llanw Llyn, Hysbyseb*
*£1170.00 – Rhent Siop Siarad*

CYFARFOD NESA 12fed o Ionawr 2016 – Ysgol Nefyn 7 y.h